ymchwil canser cymru
cancer research wales

# DANGOSA DY STREIPS



# Dangosa dy streips. Posia dros ymchwil. Newidia fywydau.



## Dangosa dy Streips yw dy gyfle i wisgo streipiau, cael hwyl, a chodi arian hanfodol ar gyfer ymchwil canser yma yng Nghymru.

Ers ei lansio dair blynedd yn ôl, mae Dangosa dy Streips wedi dod â miloedd o bobl ynghyd ledled Cymru - pob un wedi uno gyda'r un nod mentrus, gwych: **trechu canser.**

Eleni, rydym hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol. Mae seren TikTok Cymru, Lewis Leigh, wedi creu dawns newydd hwyliog a symudiadau Dangosa dy Streips arbennig i helpu pawb i gymryd rhan.

# Pam ei fod yn bwysig

**Yng Nghymru, bydd 1 o bob 2 ohonom yn cael canser.**



Yn Ymchwil Canser Cymru, rydym yn ariannu ymchwil sy'n dod â gobaith heddiw ac yn trawsnewid bywydau yfory - ond ni allwn wneud hyn hebddot ti.

Mae Diwrnod Ymchwil Canser y Byd yn tynnu sylw at rôl hanfodol ymchwil yn y frwydr fyd-eang yn erbyn canser. O ddiagnosisau cyflymach i driniaethau mwy effeithiol, mae ymchwil yn achub bywydau.

Tynna sylw at bŵer ymchwil canser yng Nghymru – Dangosa dy Streips a chyfranna i sbarduno darganfyddiadau sy'n newid bywydau.

# Sut i Gymryd Rhan

## Dangosa dy Streips

Gwisga dy dop, sanau, trowsus streipiog - hyd yn oed gwallt streipiog! Dangosa dy streips, dawnsia neu symuda a rhanna lun neu fideo ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #DangosaDyStreips a thagio @CancerResearchWales.

## Ymuna â ni

Mae'r seren TikTok, Lewis Leigh wedi creu dawns Dangosa dy Streips newydd sbon ar gyfer ymgyrch eleni. Dysga'r symudiadau, ffilmia dy fersiwn dy hun, a'i bostio ar-lein ar 24 Medi i ddangos dy gefnogaeth.

## Perswadia eraill i gymryd rhan

Cymera ran ar ben dy hun neu fel grŵp. Perswadia dy ffrindiau, teulu, ysgol, neu weithle i gymryd rhan. Neu cer gam ymhellach a chynnal stondin gacennau, cwis, neu cer ar daith feiciau, i redeg neu gerdded mewn streipiau. Mae pob gweithred yn helpu i godi arian hanfodol.

## Dysga'r ddawns!



# Sefydla dudalen codi arian

Sgania'r cod QR i greu dy dudalen codi arian a dysga ddawns Dangosa dy Streips Lewis er mwyn ymuno ar 24 Medi.



### Oes gen ti syniad yn barod?

Rho wybod i ni beth sydd gen ti ar y gweill!
Ebost: **contact-us@cancerresearchwales.org.uk**

# Trosglwyddo eich rhodd

Diolch am gefnogi Dangosa dy Streips! Unwaith y byddi wedi casglu arian, dyma sut i'w drosglwyddo:



## Ar-lein

**Enthuse**
Os wyt ti wedi creu tudalen Enthuse, bydd dy roddion yn dod aton ni yn uniongyrchol — does dim angen gwneud unrhywbeth arall!

## Drwy'r post

Oes yn well gen ti anfon siec? Gwna hi'n daladwy i Ymchwil Canser Cymru a'i phostio i'r cyfeiriad isod. Cofia gynnwys nodyn byr gyda dy enw, manylion cyswllt, a sut y gwnes di godi'r arian fel y gallwn ni ddiolch yn iawn i ti. Paid ag anfon arian parod drwy'r post.

## Dros y ffôn

Ffonia ni ar **029 2185 5050** i wneud rhodd gyda cherdyn debyd neu gredyd. Mae ein tîm ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm, ac yn hapus i helpu.

# Diolch

Mae pob ceiniog yn dod â ni'n agosach at fyd lle mae llai o fywydau'n cael eu colli oherwydd canser. Diolch i ti am gefnogi Dangosa dy Streips.

**www.cancerresearch.wales**

Ymchwil Canser Cymru
22 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd, CF24 5PJ

Rhif Sefydliad Elusennol Cofrestredig: 1167290

Registered with / Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN